## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd) a/ac Cefyn Williams.

Roedd yr Aelod Arweiniol, Y Cynghorydd D.I. Smith yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (SP), Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (AS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ), Rheolwr Datblygu: Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Swyddog Graddedig dan Hyfforddiant (IW) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr B. Blakeley ac M.L. Holland i'w cyfarfod cyntaf yn dilyn eu penodi i'r Pwyllgor.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bill Cowie, Peter Arnold Evans, Win Mullen-James, Bob Murray a/ac Cheryl Williams.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd datganiad gan unrhyw Aelod o fuddiant personol neu ragfarnus mewn unrhyw fater a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol i'w drafod, fel mater sydd angen sylw brys o dan Ran II:-

1. Tynnu arwyddion heb eu hawdurdodi oddi ar dir priffordd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd T.R. Hughes at achlysur pan oedd y Cyngor wedi gwneud cais i symud arwydd tua wyth modfedd. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd y gallai ail-leoli'r arwydd, hyd yn oed bellter byr iawn, fod yn arwyddocaol i rai o'r cyhoedd, megis pobl sy'n defnyddio bygis a chadeiriau olwyn. Cyfeiriodd at waith y Tîm Digwyddiadau a chadarnhaodd bod y swyddogion

wedi gweithio'n agos gyda pherchenogion yr arwyddion, a bod cytundeb cyfeillgar wedi'i sicrhau yn y rhan fwyaf o achosion.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau, a gynhaliwyd ddydd Iau 25ain Mai, 2015.

***PENDERFYNWYD*** *– i dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 METHODOLEG AR GYFER PENNU FFIOEDD PARCIO CEIR PRIODOL YN SIR DDINBYCH

Roedd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, a oedd yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i benderfynu ar daliadau parcio ceir priodol yn Sir Ddinbych, a'r egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer trafod y trefniadau cymhorthdal gyda Chynghorau Tref, a/neu unrhyw gyrff eraill, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad ac esboniodd bod y broses o bennu ffioedd a thaliadau wedi'i dirprwyo i lefel Pennaeth Gwasanaeth, gyda'r eithriad y byddai angen ymgynghori â'r Aelodau ynglŷn ag unrhyw newidiadau cynhennus.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol nad oedd taliadau meysydd parcio Sir Ddinbych wedi'u cynyddu ers 6 blynedd ac mae manylion am hyn yn Atodiad A. Roedd y diffyg a brofwyd wedi'i unioni gan draws-gymorthdaliadau o'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd gyffredinol. Roedd goblygiadau darparu traws-gymorthdaliadau ar sail barhaol wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Roedd y broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn ymgorffori'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, a gellir ystyried yr anghysondeb presennol yn y gyllideb fel rhan o'r broses honno. Er mai'r Aelodau fyddai'n penderfynu ar lefelau cyffredinol y gyllideb, nid oedd yn deg, nac yn rhesymol, disgwyl iddynt bennu taliadau ar gyfer meysydd parcio unigol, ar gyfer hyd arosiadau unigol, a dyna pam yr oedd y swyddogaeth honno wedi'i dirprwyo i lefel swyddog. Byddai angen datblygu'r trefniadau codi taliadau mewn ffordd resymegol a theg, ac roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gael sefyllfa deg a rhesymol ar gyfer codi taliadau, o fewn y gyllideb sydd wedi'i dyrannu, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Darparwyd amlinelliad o'r egwyddorion sylfaenol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar lefelau'r taliadau, ynghyd â:-

- Costau darpariaeth.
- Rheoleiddio'r mannau parcio sydd ar gael.
- Amserlenni prisio.
- Cyfraddau taliadau arfaethedig ar gyfer Sir Ddinbych.
- Y lefelau taliadau canlyniadol a oedd yn debyg iawn i'r rhai a oedd ar waith yng Nghonwy.

- Dadansoddiad o gynnig Cyngor Tref Prestatyn i dalu cymhorthdal ar gyfer meysydd parcio Sir Ddinbych.

Rhoddwyd crynodeb gan y swyddogion o'r atodiadau canlynol, sydd wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad:-

A. Methodoleg fanwl
B. Y cyfraddau taliadau arfaethedig
C. Cymariaethau gyda darparwyr gwasanaeth eraill a Chynghorau eraill
D. Taflen Cwestiynau Cyffredin a baratowyd er mwy trafod Cymorthdaliadau Cynghorau Tref
E. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddiben y drafodaeth, i archwilio'r broses o gyflenwi'r gwasanaeth o fewn y gyllideb, a pheidio ennill unrhyw fudd economaidd drwy gyflwyno strwythur arall ar gyfer meysydd parcio. Roedd o'r farn bod dau faes penodol i'w trafod, ac y byddai'n bosibl eu cysylltu er mwyn cyflawni'r nod yn y pen draw.

Codwyd y pwyntiau perthnasol canlynol gan y swyddogion a rhoddwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Un o nodau'r adolygiad oedd atal pobl rhag parcio drwy'r dydd oherwydd bod hyn yn cyfyngu ar y nifer o leoedd parcio sydd ar gael ar gyfer pobl a allai fod eisiau siopa.
- Roedd manylion y data traffig a pharcio wedi'u darparu ar y fantolen, a rhoddodd y swyddogion amlinelliad o sut y cafodd y ffigurau eu llunio.
- Cyfeiriwyd at y camsyniad bod codi'r taliadau yn rhwystro ymwelwyr rhag ymweld â'r ardal. Rhoddwyd cadarnhad mai'r cynnig manwerthu oedd yn cael y dylanwad mwyaf ar y dewisiadau a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Rhoddwyd amlinelliad o'r broses weithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyllideb gytbwys, a rhoddwyd cadarnhad y gallai'r Aelodau ddiwygio'r gyllideb drwy'r broses pennu cyllideb pe byddant yn dymuno gwneud hynny.
- Cadarnhawyd y gallai Sir Ddinbych ystyried cynigion o ddarpariaeth cymhorthdal gan Gynghorau Tref. Fodd bynnag, byddai pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, a chyfeiriwyd yn benodol at y trefniadau presennol gyda Chynghorau Tref Prestatyn a Rhuthun.
- Roedd y gyllideb yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd drwy'r gyllideb cynnal a chadw, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyflawni'r gwasanaeth o fewn y gyllideb.
- Mewn ymateb i'r cyfeiriad gan Aelodau at feysydd parcio yn eu hardaloedd eu hunain, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd bod pob maes parcio a'u lleoliadau penodol yn wahanol, a'r bwriad oedd cynnal strwythur sylfaenol o'r polisi o ran meysydd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr.
- Trafodwyd goblygiadau ariannol buddsoddiad pellach mewn peiriannau Talu ac Arddangos. Cyfeiriwyd hefyd at fuddiannau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaeth pe byddai taliadau digyswllt a thaliad drwy ffôn clyfar yn cael eu cyflwyno.

- Pwysleisiwyd y byddai'n bwysig nodi na ddylai'r Cyngor weithredu na darparu darpariaeth parcio ceir ar sail fasnachol, na cheisio cynhyrchu elw o'r incwm a dderbynnir.

Yn ystod y drafodaeth ganlynol, mynegodd yr Aelodau eu barn ar y materion canlynol:-

- Consensws cyffredinol y Pwyllgor oedd cefnogi cynnydd o 10c i 20c i'r taliadau, ac y bydd y gyfundrefn taliadau yn seiliedig ar gyfnod hanner diwrnod o 3 awr yn hytrach na 4 awr. Rhagwelwyd y byddai pobl yn rhoi'r gorau i'r arfer o brynu dau docyn 4 awr yn hytrach na phrynu tocyn drwy'r dydd yn sgîl y newid arfaethedig hwn.
- Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o'r rhaglen adfywio yn Y Rhyl a'r ymateb negyddol posibl i gynnydd yn y taliadau parcio ceir.
- Awgrymwyd y dylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cyfnod gras, 5 neu 10 munud o bosibl, i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad amser ar eu tocynnau parcio. Nid oedd y swyddogion yn credu y byddai hyn yn ymarferol ac y byddai'n anodd pennu ffiniau derbyniol.
- Yr angen i sicrhau bod darpariaeth parcio arhosiad byr ar gael i siopwyr lleol ac ymwelwyr i'r trefi yn y Sir.
- Cafwyd cais am eglurhad o'r cytundeb a wnaed gyda deiliaid trwydded o ran defnyddio meysydd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr.
- Darparwyd yr esboniad mai dim ond un maes parcio a oedd wedi gweld cynnydd mewn incwm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymwyd yr angen am gymhelliant i gynyddu'r defnydd a wneir o feysydd parcio, a chyflawni'r gyllideb yr un pryd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr argymhellion yn yr adroddiad a nodwyd y sylwadau canlynol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, bu i'r Pwyllgor:-

- pwysleisio nad oeddent yn gorff gwneud penderfyniadau ond eu bod yn cymeradwyo'r argymhellion bod angen cydbwyso cyllidebau, yn cynnwys y gyllideb meysydd parcio, yn amodol ar y broses Rhyddid a Hyblygrwydd.

- cytuno bod y fethodoleg yn yr adroddiad yn darparu dull rhesymegol o bennu taliadau, penderfynu ar lefelau incwm a chyflawni prif angen gweithredol y gwasanaeth, h.y. cynyddu argaeledd lleoedd ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr, a

- nodi y gallai fod yn bosibl amrywio'r gyllideb derfynol drwy broses pennu cyllideb y Cyngor, yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a allai godi drwy'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, a gallai hyn effeithio ar y taliadau y byddai angen eu codi. Esboniodd y Cadeirydd, er mwyn egluro'r sefyllfa, y dylai unrhyw benderfyniad ar gynnydd neu ostyngiad i'r taliadau gael eu gwneud ar ôl y broses o bennu'r gyllideb.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac*

(b) *yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad, yn ddarostyngedig i'r sylwadau uchod, ac yn arbennig yr isaf o'r ddau fand taliadau a band tariff arfaethedig a ddangosir yn Atodiad B gyda chyfnod hanner diwrnod o 3 awr.*

## 6 DIWEDDARIAD PROSIECT RHEOLEIDDIO MEYSYDD CARAFANAU YN WELL

Dosbarthwyd adroddiad gan y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad dilynol i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi amlinelliad o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'r camau nesaf a oedd yn cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes, yn ogystal â diweddariad ar elfen Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y prosiect. Roedd yn darparu gwybodaeth ar gynnydd y prosiect oherwydd bod y cyfrifoldeb am gyrchu data wedi'i aseinio i'r Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes.

Cyfeiriodd y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio at ganlyniadau'r prosiect peilot, a chadarnhawyd bod y cyfrifoldeb am agweddau corfforaethol y prosiect wedi'u trosglwyddo i'r Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes. Y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd oedd yn gyfrifol am gynhyrchu gweithdrefn reoliadol a fyddai'n nodi'r opsiynau rheoliadol ar gyfer rheoli'r defnydd preswyl anawdurdodedig o garafanau gwyliau o safbwyntiau cynllunio a thrwyddedu. Er y byddai rhai o gerrig milltir y prosiect yn cael eu cyflawni gan wasanaethau gwahanol, byddai'n cael ei gynnal fel un prosiect unigol.

Rhoddwyd crynodeb o'r cynnydd hyd yma i'r Pwyllgor o ran nodi maint y broblem, fel y cafodd ei amlinellu yn yr adroddiad. Darparwyd amlinelliad o'r camau nesaf i dargedu a rheoleiddio defnyddwyr gwasanaeth, gan ddefnyddio'r Gofrestr Etholiadol a gweithio gyda pherchenogion safleoedd carafanau. Roedd rhestr gynhwysfawr o'r holl safleoedd carafanau gwyliau sydd yn y Sir, a charafanau gwyliau unigol, wedi'u cynnwys yn Adran 2 Atodiad 1. Roedd pum carreg filltir allweddol arall wedi'u nodi ar gyfer y prosiect, yn cynnwys:-

- Cynnal ymarfer mapio o leoliadau a lwfansau safleoedd carafanau gwyliau gan y Gwasanaeth Cynllunio a Thrwyddedu, fel y'i nodir yn Atodiad 3.
- Datblygu system prosesu data er mwyn gallu adrodd ar y defnydd a wneir gan 'breswylwyr' carafanau gwyliau o'r gwasanaeth, o'r data a gasglwyd hyd yma. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 4, a oedd wedi'i eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn unol â pharagraff 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.
- Cynnal dadansoddiad ac ymarfer mapio o'r canlyniadau defnydd gwasanaeth.
- Cynhyrchu strategaeth gorfforaethol ar garafanau.
- Datblygu gweithdrefn reoliadol a chynllun gweithredu.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, amlinelliad o'r amcanion i leihau nifer y bobl sy'n byw mewn carafanau gwyliau yn gorfforaethol, drwy atal mynediad at y gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu gan y Cyngor yn y ffynhonnell. Amlygodd yr angen i reoleiddio'r ddarpariaeth, ac y byddai'n bosibl

gwneud hynny drwy weithio gyda chymdeithasau carafanau a pherchenogion parciau carafanau, ac roedd gwaith manwl eisoes wedi'i wneud ar hyn.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau ynglŷn â chynnwys preswylwyr ar safleoedd carafanau ar Gofrestrfeydd Etholiadol mewn mwy nac un ardal, a'r goblygiadau ariannol posibl o fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd. Rhoddodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Gwasanaethau amlinelliad o'r dulliau a fyddai'n cael eu defnyddio drwy'r wybodaeth a gasglwyd i olrhain defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn carafanau. Mewn ymateb i awgrym gan y Cadeirydd y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael ar bob un o breswylwyr yn y Sir, esboniodd y CD:ECA bod hyn yn cael ei gyflawni drwy'r system CRM a oedd yn paru pobl yn erbyn cyfeiriadau a'r defnydd a wneir o wasanaethau.

Esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod y mater sy'n cael ei ystyried yn fater corfforaethol, a phwysleisiodd y manteision o fynd i'r afael â'r materion drwy brosiect corfforaethol a thrwy gytuno ar strategaeth orfodi briodol. Cyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth bresennol a nododd yr angen i nodi cwantwm y broblem, a fyddai'n helpu i ganfod atebion a chyflwyno dull gweithredu cydgysylltiedig.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau, rhoddodd y swyddogion fanylion o'r broses ymchwilio a'r ymarfer mapio a fabwysiadwyd ar gyfer safleoedd carafanau mwy a llai. Rhoddwyd manylion y costau cyfredol a'r goblygiadau ariannol yn y dyfodol i'r Pwyllgor, a phwysleisiodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Gwasanaethau bwysigrwydd a manteision creu system gywir i liniaru'r costau yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr HBIM eu bod yn rhagweld y byddai cerrig milltir y prosiect yn cael eu cyflawni ac y byddai pob un o'r cynhyrchion sylfaenol yn cael eu cyflawni erbyn diwedd 2015. Roedd yn rhagweld y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn diwedd yr hydref, a fyddai'n nodi'r strategaeth a'r weithdrefn reoliadol a fyddai'n cael eu defnyddio yn y dyfodol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegodd y Pwyllgor eu cefnogaeth lawn i'r gwaith a oedd yn cael ei wneud, a'r camau nesaf arfaethedig a oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn:-*

*(a) derbyn yr adroddiad*
*(b) nodi cynnydd y prosiect hyd yma*
*(c) cymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chytuno i dderbyn adroddiad pellach ar gynnydd yn ystod Hydref 2015.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnig Aelodau' wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Esboniwyd na fyddai unrhyw eitemau yn cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig archwilio' gael ei chwblhau a'i derbyn i'w chynnwys gan y Pwyllgor neu'r SCVCG. Roedd tabl a oedd yn crynhoi'r cynnydd ar atebion diweddar y Pwyllgor ac a oedd yn rhoi'r cynnydd i'r Aelodau o ran eu gweithredu wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Roedd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3. Cyfeiriwyd at yr eitem fusnes a oedd yn gysylltiedig â Thaliadau Parcio ar gyfer y cyfarfod ar 28ain Gorffennaf, 2015. Esboniodd y CD: ECA bod yr eitem wedi'i chynnwys er mwyn ystyried unrhyw faterion neu argymhellion a fyddai'n deillio o'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, a chytunodd y byddai'n ymgynghori â'r Aelod Arweiniol o ran ei ddileu o raglen waith y Cabinet.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Adolygiad o Ofal Cymdeithasol a oedd wedi'i gynnal. Roedd o'r farn nad oedd yr effaith ar y gymuned wedi'i hystyried, ac nad oedd yr amserlenni yn galluogi mewnbwn gan y cyhoedd yn y broses. Rhoddodd y CD:ECA fanylion y broses a oedd wedi'i mabwysiadu ac esbonio bod ffynonellau wedi bod ar gael, drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen a Phwyllgor Archwilio Partneriaethau, a oedd wedi darparu cyfleoedd i drafod materion cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

Roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylid gwahodd y darpar Aelodau Arweiniol i gyflwyno'r adroddiadau ar yr eitemau busnes a fyddai'n cael eu cynnwys ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 10fed Medi, 2015.

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio yn cael ei gynnal ar 23ain Gorffennaf, 2015.

Roedd Cyfarwyddwr Cyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mr Jon Rae, wedi derbyn gwahoddiad y Pwyllgor i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 10fed Medi, 2015 i drafod Effaith hysbysiad hwyr ar gyllid Llywodraeth Ganolog.

Cododd y Cynghorydd T.R. Hughes yr eitem fusnes, "Adolygiad o'r Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol", a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27ain Hydref, 2016, i ystyried canfyddiadau adolygiad o effaith cyflwyno'r Polisi ar ôl ei flwyddyn lawn gyntaf. Cytunodd yr Aelodau y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor yn ddiweddarach eleni ar ôl i'r system newydd fod yn weithredol am fis, sy'n dechrau ym mis Medi 2015, a fyddai'n nodi effaith y broses gychwynnol o gyflwyno'r Polisi.

Wrth ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley ar y broses ymgynghori ar y trefniadau ar gyfer Hafan Deg a'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol, rhoddodd y CD:ECA fanylion am y broses a'r amserlenni. Esboniodd y byddai'r mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16eg Gorffennaf, 2015, ac y byddai'r opsiynau a fyddai ar gael yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet eu hystyried.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar y diwygiadau a'r cytundebu uchod, y byddai'r Rhaglen Waith a gyflwynir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.